

# Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mai 10fed 2016 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (cadeirydd), Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Gwilym Davies, Arwel Davies, Euros Puw, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Davies, Jean Roberts a Rhys Richards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

## Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

## a) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

### Asedau'r Cyngor.

Roedd lloches bws Rhyduchaf wedi cael ei archwilio ac roedd angen ychydig o welliannau. Cytunwyd i'w drafod ymhellach ar ôl i'r lloches yn Y Parc cael ei archwilio.

## b) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### a) Partneriaeth Penllyn/ Cwmni Pum Plwy Penllyn

i) Cytundeb Cynnal Llwybrau - roedd y bartneriaeth wedi derbyn cadarnhad bod Cyngor Gwynedd yn gorfod pasio'r toriadau yn eu cyllideb cynnal llwybrau cyhoeddus ymlaen iddynt. Roedd y Bartneriaeth wedi trafod gyda'u contractwr ac roedd yn bosib gwneud arbedion wrth beidio torri rhai llwybrau o gwbl a lleihau'r nifer o weithiau'r torri'r llwybrau eraill.

### b) Cyngor Gwynedd

i) Newid yn nhrefniant ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus - fel y trafodwyd yn gynharach derbyniwyd gwybodaeth am y toriadau a oedd yn wynebu'r adran.

ii) Ardaloedd Cymunedol Gwynedd - Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n gyfrifol am weithredu 'Deddf Llesiant Cenedlaethol Dyfodol Llywodraeth Cymru (2015)' ac mae angen i Gyngor Gwynedd argymhell yr union ardaloedd i'w hargymhell i'r Bwrdd. Derbyniwyd gwybodaeth a chyfle i gynnig sylwadau ar y cymunedau is-sirol posib. Nid oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw wrthwynebiad i'r ffordd yr oedd y sir wedi cael ei rannu ond roedd anfodlonrwydd bod ardal Penllyn wedi cael ei labelu yn Bala (Bala, Llanuwchllyn). Gofynnwyd i'r cler anfon yn nol yn gofyn iddynt gywiro'r enw.

iii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Mehefin.

iv) Mabwysiadu'r Cod Ymddygiad – Gan fod y Cyngor Cymuned wedi mabwysiadu'r Cod Ymddygiad cytunwyd i dderbyn gwahoddiad Cyngor Gwynedd i gael eu cynnwys yn eu hysbyseb yn y papur newydd.

### c) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Gwahoddiad i'r cyfarfod rhwng y Parc a'r Cynghorau Tref a Chymuned

ii) Copi o'i rhaglen cyfarfodydd ar gyfer 2016-17.

### ch) Amrywiol

i) Caeau Canmlwyddiant – Gwybodaeth am eu cynllun Caeau Canmlwyddiant.

ii) GCGIC – Gwybodaeth am eu cyfarfodydd cymunedol.

iii) Ffrindiau Neuadd Buddug – Gwahoddiad i'r agoriad swyddogol, 27/5/16.

iv) Un Llais Cymru - Derbyniwyd gwybodaeth bellach ynglŷn â chyflenwi'r biniau halen. Roedd swyddog Un Llais Cymru wedi mynychu cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd a chafwyd cadarnhad bod angen trwydded bwrpasol i lenwi'r biniau ac wrth ddefnyddio gwasanaeth Cyngor Gwynedd byddant yn adnewyddu unrhyw finiau halen sy'n cael eu difrodi.

### **ch) Ceisiadau Cynllunio.**

Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-

NP5/72/237A - Cais ol-weithredol i gadw garej. 8 Tai'n Rhos, Parc.

Cafwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei dynnu'n ôl:-

NP5/72/183B - Trosi sgubor i ffurfio estyniad i dy gan gynnwys codi lefel y bondo, adeiladu estyniad cefn unllawr, gosod 2 ffenestr dormer a 4 ffenestr to. Cefn Bodig, Parc.

Cafwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-

NP5/72/161E - Codi garej ac ystafell bwylwr biomas. Tyn Ffordd, Rhyduchaf.

### **d) Materion Ariannol.**

#### **i) Ffurflen Archwiliad Blynyddol.**

Adroddodd y clerch bod y cyfrifon a'r ffurflen wedi cael ei archwilio gan yr archwilydd mewnol.

Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiad sicrwydd yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y clerch y byddai'n anfon y ffurflen a'r dogfennau perthnasol ymlaen i'r archwilydd mewnol.

ii) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) TGTHE (TWE)